Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (01/2017)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At:

Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch yng Nghymru
Canolfannau dysgu sydd wedi cofrestru ar gyfer y cynlluniau LCA a WGLG (AB)
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr
UCAS
UCM Cymru
Comisiynydd Plant Cymru

Mai 2017

Annwyl Gyfaill

CYNLLUNIAU'R LWFANS CYNHALIAETH ADDYSG A GRANT DYSGU LLYWODRAETH CYMRU (ADDYSG BELLACH) AR GYFER BLWYDDYN ACADEMAIDD 2017/18

Mae'r Nodyn Gwybodaeth hwn yn darparu manylion cynlluniau Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) (WGLG (AB)) ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18.

YMHOLIADAU

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y Lwfans Cynhaliaeth Addysg a/neu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) neu'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn, cysylltwch ag Is-adran Addysg Uwch Llywodraeth Cymru – e-bost cyllidmyfyrwyr@cymru.gsi.gov.uk. Croesawn ohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill, a gellir lawrlwytho copi o'r Nodyn Gwybodaeth hwn yn Gymraeg neu Saesneg.

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

E-bost/ E-mail:
cyllidmyfyrwyr@cymru.gsi.gov.uk
studentfinancedivision@wales.gsi.gov.uk

i. Cynlluniau'r LCA a WGLG (AB) 2017/18

Ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18, bydd y dyfarniadau a'r trothwyon incwm ar gyfer y cynlluniau AB sy'n seiliedig ar brawf modd yn cael eu cynnal ar lefelau blwyddyn academaidd 2016/17. Bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn parhau i weinyddu ceisiadau, fel rhan o'i wasanaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae gwasanaethau Cyllid Myfyrwyr Cymru i gwsmeriaid yn cael eu darparu'n ddwyieithog a gallwch gysylltu â nhw ar 0300 200 450. Mae ffurflenni cais a chanllawiau ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18 ar gael i'w lawrlwytho drwy wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru. Mae pecynnau cais wedi eu dosbarthu i'r ysgolion a'r colegau hynny sy'n gweinyddu'r cynlluniau. Mae gwybodaeth am y cynlluniau ar gael drwy wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru:

www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/ab
www.studentfinancewales.co.uk/fe

ii. Gwirio Incwm y Cartref yn Electronig – 2017/18

Roedd SFWIN (03/2016)[1] yn egluro y byddai'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn gweinyddu ar gyfer myfyrwyr cymwys sy'n dychwelyd, fel rhan o'i asesiadau electronig o incwm y cartref ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17. Bydd trefniadau gweinyddol tebyg yn parhau ar gyfer myfyrwyr sy'n dychwelyd ym mlwyddyn academaidd 2017/18, sef:-

Myfyrwyr y cynlluniau LCA a WGLG (AB) sy'n dychwelyd a ddechreuodd eu cwrs/cyrsiau ar ôl blwyddyn academaidd 2015/16. Ym mlwyddyn academaidd 2017/18, bydd y myfyrwyr hyn sy'n dychwelyd yn destun asesiad electronig fel rhan o broses gwirio sampl y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i ddilysu incwm y cartref. Bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn ysgrifennu at ddetholiad o fyfyrwyr sy'n dychwelyd, a bydd angen i'r myfyrwyr lenwi ffurflen asesu ariannol, gan nodi manylion am incwm y cartref ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-16.

Myfyrwyr y cynlluniau LCA a WGLG (AB) sy'n dychwelyd a ddechreuodd eu cwrs/cyrsiau cyn blwyddyn academaidd 2015/2016. Ym mlwyddyn academaidd 2017/18, bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn parhau i wirio sampl o'r myfyrwyr hyn sy'n dychwelyd er mwyn dilysu incwm y cartref, gan ofyn iddynt ddarparu tystiolaeth ar bapur o incwm y cartref ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol (2016-17).

Os yw myfyriwr sy'n dychwelyd yn dechrau cwrs newydd/gwahanol ym mlwyddyn academaidd 2017/18 neu fod ei statws personol yn newid (e.e. newid o fod yn fyfyriwr dibynnol i fyfyriwr annibynnol), gallai'r ymgeisydd fod yn destun asesiad electronig o incwm y cartref. Os yw newid o'r fath yn digwydd, bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn ysgrifennu at y myfyriwr i egluro'r broses.

Bydd myfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n dychwelyd yn gallu gwneud cais o hyd am ailasesiad yn ystod y flwyddyn os yw'r incwm wedi'i ostwng yn barhaol ers eu cais cychwynnol.

[1] http://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/media/195737/hysbysiad-gwybodaeth-cyllid-myfyrwyr-cymru-03-2016-w.pdf

iii. Ffurflenni Templed ar gyfer Cytundebau Dysgu Gorfodol/Grant Dysgu y cynlluniau LCA a WGLG (AB) – Amgylchiadau Arbennig

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai fod amgylchiadau arbennig yn achos rhai pobl ifanc ac oedolion, a allai effeithio ar eu presenoldeb tra byddant yn astudio am resymau y tu hwnt i'w rheolaeth, er enghraifft, gofalwyr ifanc/gofalwyr sy'n oedolion sy'n darparu gofal yn rhad ac am ddim i aelodau o'r teulu sy'n sâl neu'n anabl.

Rydym eisoes wedi cymryd camau cadarnhaol drwy gryfhau canllawiau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ynghylch y cynlluniau LCA a WGLG (AB) ar gyfer ysgolion a cholegau mewn perthynas â phresenoldeb, gan gydnabod rôl bwysig gofalwyr ifanc/gofalwyr sy'n oedolion sydd â chyfrifoldebau gofalu di-dâl.

Er mwyn adeiladu ar y camau cadarnhaol hyn, bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn addasu ei dempledi ar gyfer cytundebau dysgu gorfodol y cynlluniau LCA a WGLG (AB), ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18. Bydd y newid hwn yn rhoi opsiwn i fyfyrwyr ddatgelu o'u gwirfodd unrhyw amgylchiadau arbennig, a allai effeithio ar eu presenoldeb am resymau y tu hwnt i'w rheolaeth. Y nod yw cefnogi myfyrwyr sy'n cael eu hystyried yn agored i niwed, ac a allai fod mewn perygl o beidio â chymryd rhan.

Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr hefyd yn bwriadu newid y system ar gyfer ei borthol Canolfan Dysgu diogel ar-lein. Bwriad y newid hwn yw darparu nodyn gweledol pan fo myfyriwr wedi adrodd bod ganddo amgylchiadau arbennig drwy ei gytundeb dysgu, gan helpu ysgolion/colegau i ystyried yr holl amgylchiadau wrth wneud penderfyniadau am absenoldebau awdurdodedig a rhai heb eu hawdurdodi, mewn perthynas â chymorth y cynlluniau **LCA a WGLG (AB)**. Caiff canllawiau Canolfan Dysgu 2017/18 y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr eu diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau.